# BRIFF I YMGEISWYR AM SWYDDI COMISIYNWYR HEDDLU A THROSEDDU 2024

The Independent Custody Visiting Association

## CANLLAW I DDYLETSWYDDAU COMISIYNWYR HEDDLU A THROSEDDU I REDEG CYNLLUN YMWELWYR ANNIBYNNOL Â DALFEYDD





national preventive mechanism

## YMWELWYR ANNIBYNNOL Â DALFEYDD

Mae gan bob Comisiynydd Heddlu a Throseddu ddyletswydd gyfreithiol i redeg cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, lle mae aelodau lleol o’r cyhoedd yn gwirfoddoli i wasanaethu fel Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd gan ymweld yn rheolaidd ac yn ddirybudd â dalfeydd yr heddlu i wirio hawliau a llesiant y rhai a gedwir yn y ddalfa yn ogystal â'r amodau y maent yn cael eu cadw ynddynt.

Bydd Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn siarad â'r rhai a gedwir yn y ddalfa, yn adolygu cofnodion dalfeydd ac yn gwirio amodau'r ddalfa a stociau hanfodol fel bwyd, dillad ac eitemau crefyddol. Maent yn gofyn i staff y ddalfa ddatrys unrhyw broblemau uniongyrchol ac yn cwblhau adroddiadau ar eu hymweliad, gan hysbysu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu am eu canfyddiadau.

Mae dalfeydd yr heddlu yn amgylchedd lle ceir llawer o bwysau a lefel uchel o risg. Mae staff sy'n gweithio mewn dalfeydd yn rhyngweithio â phobl ac yn gofalu amdanynt mewn amgylchiadau anodd. Gall pobl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa fod yn agored i niwed, yn ofidus neu'n heriol. Efallai fod ganddynt anghenion cymhleth, gan gynnwys problemau gyda chyffuriau ac alcohol, salwch meddwl neu broblemau iechyd corfforol.

Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn amddiffyniad gwerthfawr i'r rhai a gedwir yn y ddalfa ac i heddluoedd. Mae'r ymweliadau yn helpu i atal y rhai sydd yn y ddalfa rhag cael eu cam-drin a'u niweidio, ac mae Arolygwyr Dalfeydd yn gwerthfawrogi gwaith yr Ymwelwyr Annibynnol o ran cyfrannu at amgylchedd diogel a sicrhau bod dalfeydd yn gwella'n barhaus.

Drwy waith Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn gallu rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod pobl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa gan yr heddlu yn eu hardal nhw yn cael eu trin mewn ffordd gyfreithlon, foesegol a thryloyw.

## EICH DYLETSWYDDAU FEL COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU

Mae ymweliadau â dalfeydd yn rhan o rwydwaith y DU gyfan i atal y rhai a gedwir yn y ddalfa rhag cael eu harteithio a'u cam-drin ac mae'n rhan o'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol sy'n ofynnol o dan gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig i atal artaith.

Mae'r Cod Ymarfer i Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn nodi cyfrifoldebau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, sef:

- sicrhau bod cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd cadarn ac effeithiol yn eich ardal chi a chanddo adnoddau priodol ac aelod o staff yn gyfrifol am y cynllun;
- sicrhau bod ymweliadau rheolaidd yn cael eu cynnal ym mhob rhan o ddalfeydd yr heddlu, gan gynnwys y rhai sydd yn y ddalfa ar gyfer terfysgaeth;
- sicrhau bod eich gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi a'u rheoli'n dda;
- sicrhau bod rheolwr eich cynllun yn rhoi adroddiadau rheolaidd i chi ar faterion y ddalfa ac y gallwch nodi problemau a thueddiadau;
- sicrhau eich bod yn cael cyfleoedd rheolaidd a ffurfiol i godi pryderon gyda'r heddlu a bod yr heddlu a phartneriaid yn delio â phryderon Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd; a
- os oes gennych gyfleuster dalfa ar gyfer terfysgaeth yn eich ardal chi, sicrhau bod Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn cyflwyno eu hadroddiadau i'r Adolygydd Annibynnol ar Ddeddfwriaeth Terfysgaeth.

## CYMDEITHAS YMWELWYR ANNIBYNNOL Â'DALFEYDD

Mae ICVA yn sefydliad cenedlaethol sy'n arwain, yn cefnogi ac yn cynrychioli cynlluniau ymwelwyr â dalfeydd.
Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ym mhob rhanbarth plismona yn enwebu cynrychiolydd i Fforwm Arbenigwyr Cenedlaethol ICVA i gynrychioli cynlluniau lleol.

Mae ICVA yn darparu adnoddau, cymorth a chynrychiolaeth sy'n galluogi'r Comisiynwyr a'u staff i gyflwyno cynlluniau o ansawdd uchel. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynrychiolaeth mewn cyfarfodydd cenedlaethol gyda'r Swyddfa Gartref, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol.
- Papurau briffio ar bolisi, diweddariadau, hyfforddiant ac arweiniad.
- Gwefan i aelodau sy'n darparu llyfrgell o adnoddau a fforwm ar gyfer trafodaeth.

- Fframwaith Sicrhau Ansawdd.
- Digwyddiadau rheolaidd a chyfarfodydd rhwydwaith i rannu arfer da ac adnoddau.
- Mae ICVA yn cynrychioli Cymru a Lloegr yn y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol ar gyfer y DU, gan helpu i gyflawni dyletswyddau'r DU o dan OPCAT a rhannu'r hyn a ddysgir ar draws dalfeydd.

## EFFAITH YMWELWYR Â DALFEYDD

Mae adroddiadau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn arwain at welliannau i system gyfan y ddalfa, a hynny'n rheolaidd. Gan weithio gyda phartneriaid ar draws gwasanaeth yr heddlu, mae ICVA wedi defnyddio gwybodaeth a gasglwyd gan Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a staff Swyddfeydd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i gyflwyno newidiadau ystyrlon megis lleihau lefel y golau i sicrhau bod carcharorion yn gallu cael eu hawl gyfreithiol i gyfnodau di-dor o orffwys, a sefydlu llwybr atgyfeirio newydd ar gyfer y rhai a all fod yn profi symptomau perimenopos/menopos yn nalfa'r heddlu.

**I gael rhagor o wybodaeth, ewch i icva.org.uk,**
**dilynwch ni ar X @CustodyVisiting**
**neu e-bostiwch info@icva.org.uk.**